# Llesiant gwell ar gyfer y gweithlu

Cyhoeddwyd gyntaf: 3 January 2024

Diweddariad olaf: 18 January 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/adroddiad-effaith-2022-i-2023/llesiant-gwell-ar-gyfer-y-gweithlu-gofal-cymdeithasol-ar-blynyddoedd-cynnar am y fersiwn diweddaraf.

**Llesiant gwell ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar.**

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn o'n cynllun strategol yn ystod 2022 i 2023.

## Mae eich llesiant yn bwysig

Mae llesiant y gweithlu yn ganolbwynt allweddol i'n gwaith. Rydyn ni am i'r gweithlu fod yn hapus, yn iach a chael cefnogaeth, fel eu bod yn eu tro yn cefnogi llesiant y bobl sydd dan eu gofal.

Clywsom ni gan **1,000 a mwy o bobl** a ddywedodd fod iechyd a llesiant y gweithlu yn hollbwysig ac mae'n ganolbwynt allweddol i **strategaeth y gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol**

Y llynedd oedd ein hail flwyddyn lawn o gyflawni'r strategaeth ac fe barhaodd yn gyfnod heriol i'r sector. Er gwaethaf heriau sylweddol y tair blynedd diwethaf, rydyn ni wedi gwneud cynnydd ac ar yr un pryd wedi dechrau ystyried cam nesaf gweithredu'r strategaeth, o 2023 ymlaen.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethon ni gyhoeddi dri chynllun i gefnogi'r gwaith o gyflawni strategaeth y gweithlu. Y rhain yw:

- cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol
- cynllun gweithlu gofal uniongyrchol
- cynllun gweithlu strategol iechyd meddwl.

## Fframwaith iechyd a llesiant

Ym mis Hydref 2022, cyflwynwyd ein **fframwaith iechyd a llesiant** cyntaf ar gyfer y rhai sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol a gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar.

Mae'n disgrifio llesiant da yn y gweithle a sut i greu gweithleoedd sy'n cefnogi llesiant staff.

**“Dwi wedi bod yn defnyddio'r model fframwaith i rannu'r hyn a ddysgwyd ag arweinwyr yn fy awdurdod lleol.”**

**– Rheolwr y gweithlu**

## Cymorth gan gymheiriaid

Yn 2022 i 2023, buom ni’n cynnal **sesiynau cymorth cymheiriaid** ar-lein bob pythefnos ar gyfer rheolwyr gofal cartref a sesiynau deufisol ar gyfer rheolwyr cartrefi gofal:

- roedd **93 y cant** o'r rhai a gymerodd ran yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n emosiynol ac yn cefnogi eraill
- dywedodd **69 y cant** eu bod yn teimlo’n llai ynysig yn eu swydd.

**“Doeddwn i ddim yn sylweddoli gymaint oeddwn i angen y sesiynau hyn nes i mi ddechrau arnyn nhw, o bosib un o'r ychydig bethau positif i ddeillio o'r pandemig."**

**– Rheolwr gofal cymdeithasol**

## Cymuned llesiant

Dywedodd y gweithlu wrthyn ni yr hoffent allu cysylltu a siarad ag eraill sy'n cefnogi llesiant yn y gweithlu, a chanfod beth sy'n gweithio.

Felly, fe wnaethon nil lansio ein cymuned ymarfer llesiant ar-lein yn ystod y flwyddyn, lle gall pobl siarad ag eraill am gefnogi llesiant yn y gwaith, a dysgu beth sy'n gweithio. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gennym ni **95 o aelodau** ac mae'r gymuned yn parhau i fynd o nerth i nerth.

Yn 2022 i 2023, fe wnaethon ni ddatblygu **adnoddau** i gefnogi llesiant y gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar, ac ymwelodd mwy na **7,000** â'r wybodaeth a’r adnoddau ar ein gwefan.

# Gweithlu sy'n cael ei gydnabod a'i werthfawrogi'n fawr

Cyhoeddwyd gyntaf: 3 January 2024

Diweddariad olaf: 18 January 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/adroddiad-effaith-2022-i-2023/gweithlu-gofal-cymdeithasol-ar-blynyddoedd-cynnar-syn-cael-ei-gydnabod-ai-werthfawrogin-fawr am y fersiwn diweddaraf.

**Gweithlu gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar sy'n cael ei gydnabod a'i werthfawrogi'n fawr.**

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn o'n cynllun strategol yn ystod 2022 i 2023.

Mae ein gweithlu gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar yn haeddu gwobr deg sy'n adlewyrchu eu cyfraniad hollbwysig at lesiant pobl a chymunedau.

Fel aelodau o'r Fforwm Gwaith Teg, byddwn ni’n parhau i ddylanwadu ac ymrwymo i ymgorffori Gwaith Teg a gwella amodau a thelerau'r rhai sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol.

## Cydnabod a dathlu'r gweithlu

Cynhaliwyd seremoni **Gwobrau**, sy'n cydnabod, dathlu a rhannu enghreifftiau o ofal cymdeithasol a gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar rhagorol yng Nghymru, wyneb yn wyneb ar **21 Ebrill 2022** am y tro cyntaf ers 2018.

Yn 2022:

- cawsom **76 o geisiadau ac enwebiadau**, ar draws **7 categori**
- daeth **135 o westeion** i'r seremoni yng Ngholeg Cerdd a Drama Caerdydd, a gafodd ei ffrydio'n fyw dros y we hefyd.
- rhoddodd gwesteion sgôr gyfartalog o **92 y cant** i'r seremoni.

## ‘Dweud eich dweud' – yr arolwg cyntaf o'r gweithlu gofal cymdeithasol cofrestredig

Erbyn diwedd mis Mawrth 2023, roedd **900 o bobl** wedi ymateb i'n **harolwg o'r gweithlu** cyntaf Roedd yr arolwg o weithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig yn gofyn cwestiynau am gyflog a chyflyrau, iechyd a llesiant, a'r hyn mae pobl yn ei hoffi am weithio ym maes gofal.

Bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi a byddwn ni’n gweithio gyda phartneriaid i weld sut y gallwn ni a'n partneriaid ddarparu cymorth yn y ffordd orau mewn ymateb i ymatebion yr arolwg.

## Cydnabyddiaeth i’r gweithlu

Mae'r cyhoedd yng Nghymru yn gwerthfawrogi'r gweithlu, gyda mwy na dwy ran o dair o'r farn eu bod nhw'n gwneud gwaith da a bron i dri chwarter â hyder ynddynt.

Roedd y canlyniadau hyn yn rhan o arolwg Omnibus a gynhaliwyd yn 2022 i 2023 ymhlith 1,000 o aelodau'r cyhoedd yng Nghymru.

Dywedodd bron i 80 y cant o'r cyhoedd yng Nghymru y dylai gweithwyr gofal gael lefelau tebyg o gyflog a buddion i'r rhai sy'n gweithio yn y GIG.

## Cerdyn gweithiwr gofal

Bydd fersiwn newydd y cerdyn gweithiwr gofal a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn yn cael effaith gadarnhaol ar weithwyr gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar oherwydd gallan nhw elwa ar gerdyn taliad arian-yn-ôl, yn ogystal ag ystod o gynigion manwerthu. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy ddarparwr gostyngiadau pwrpasol, Discounts for Carers.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, roedd gan:

- **36,247** o weithwyr gofal cymdeithasol y cerdyn
- **1,756** o weithwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant y cerdyn.

# Gweithlu sydd â hyder y cyhoedd

Cyhoeddwyd gyntaf: 3 January 2024

Diweddariad olaf: 18 January 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/adroddiad-effaith-2022-i-2023/gweithlu-gofal-cymdeithasol-cofrestredig-sydd-â-hyder-y-cyhoedd am y fersiwn diweddaraf.

**Gweithlu gofal cymdeithasol cofrestredig sydd â hyder y cyhoedd.**

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn o'n cynllun strategol yn ystod 2022 i 2023.

Rydyn ni’n diogelu'r cyhoedd drwy sicrhau bod y gweithlu a reoleiddir wedi'i gofrestru ac yn addas i ymarfer.

Gall pobl sy'n dibynnu ar ofal a chymorth fod yn sicr bod gweithiwr cofrestredig yn gymwys ac wedi cytuno i fodloni'r safonau proffesiynol rydyn ni wedi'u gosod ar gyfer y sector.

Dangosodd arolwg diweddaraf Omnibus o’r cyhoedd yng Nghymru ym mis Mawrth 2023 fod gan bobl canfyddiad cadarnhaol yn sgiliau a phroffesiynoldeb y gweithlu. Dywedodd:

- **72 y cant** o'r rhai a holwyd fod ganddyn nhw hyder yn y rhai sy'n gweithio ym maes gofal
- **82 y cant** a holwyd eu bod yn gwybod beth oedd safon dderbyniol o ofal.

## Gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig

- Roedd **53,537 o weithwyr gofal cymdeithasol** wedi cofrestru gyda ni erbyn 31 Mawrth 2023
- Mae hyn **18,000 yn fwy** nag ym mis Mawrth 2022
- Mae'r **rhan fwyaf o'r gweithlu gofal cymdeithasol** yng Nghymru wedi cofrestru gyda ni erbyn hyn.

## Addasrwydd i ymarfer

Yn 2022 i 2023:

- cafodd **394 o weithwyr gofal cymdeithasol** eu cyfeirio at ein tîm addasrwydd i ymarfer
- fe wnaethon ni gynnal **50 gwrandawiad terfynol**
- cafodd **36 o bobl** (**0.07 y cant o'r Gofrestr)** eu tynnu oddi ar y Gofrestr, fel na allant weithio mewn rôl gofal cymdeithasol gofrestredig yng Nghymru mwyach.

Mae cymryd rhan mewn ymchwiliad addasrwydd i ymarfer yn gallu bod yn gyfnod dryslyd ac yn ofidus. Felly fe wnaethon ni sefydlu **llinell gymorth llesiant** i helpu unrhyw un sy'n mynd drwy'r broses gwrandawiadau:

- cysylltodd **10 o bobl**
- cynhaliwyd **25 o sesiynau cwnsela**.

# Gweithlu sydd â chymwysterau, gwybodaeth a sgiliau addas

Cyhoeddwyd gyntaf: 3 January 2024

Diweddariad olaf: 18 January 2024

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/adroddiad-effaith-2022-i-2023/gweithlu-gofal-cymdeithasol-ar-blynyddoedd-cynnar-sydd-â-chymwysterau-gwybodaeth-a-sgiliau-addas-gydar-gwerthoedd-yr-ymddygiad-ar-ymarfer-cywir am y fersiwn diweddaraf.

**Gweithlu gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar sydd â chymwysterau, gwybodaeth a sgiliau addas, gyda'r gwerthoedd, yr ymddygiad a'r ymarfer cywir.**

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn o'n cynllun strategol yn ystod 2022 i 2023.

Rydyn ni wedi cefnogi pobl sy'n cael eu cyflogi ym maes gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar i ddatblygu eu sgiliau a gwella’u gallu er mwyn helpu pobl yn effeithiol a darparu gofal.

Rydyn ni wedi gwrando ar y sector ac wedi gweithio gyda phartneriaid i wneud newidiadau i rai cymwysterau.

## Canfyddiad y cyhoedd o sgiliau'r gweithlu

Ym mis Mawrth 2023, datgelodd arolwg Omnibus y cyhoedd yng Nghymru bod:

- **67 y cant** o'r cyhoedd yn cytuno bod y gweithlu (gweithwyr gofal preswyl, gweithwyr gofal cartref a gweithwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant) bob amser yn fedrus ac yn broffesiynol wrth eu gwaith
- **67 y cant** yn credu y dylai pobl dderbyn gofal yn Gymraeg, os mai dyna fyddai'n well ganddyn nhw.

Mae ein data'n awgrymu bod tua **29 y cant** o'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru yn deall Cymraeg i ryw raddau ac rydyn ni’n parhau i edrych ar ffyrdd o helpu'r gweithlu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

## Buddsoddi yn y gweithlu

Talwyd **£7,144,856** i awdurdodau lleol drwy'r **Grant Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol,** gydag arian cyfatebol o **£3,062,081** gan awdurdodau lleol, i gefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol.

## Newidiadau i gymwysterau

Cyflwynwyd newidiadau i **gymwysterau Lefel 2 a Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a chymwysterau Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant** ar ôl adborth.

Cyflwynwyd newidiadau i'r asesiadau ac ychwanegu mwy o unedau.

## Diogelu

Ym mis Tachwedd 2022, fe wnaethon nihelpu i lansio **safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu cenedlaethol cyntaf Cymru**.

Mae'r safonau'n nodi'r sgiliau, agweddau, gwybodaeth a gwerthoedd sydd eu hangen ar bobl sy'n gweithio gydag oedolion a phlant sy’n agored i niwed.

## Cofrestr sy’n seiliedig ar gymwysterau

Fe wnaethon ni gyhoeddi ein **dadansoddiad o gymwysterau'r gweithlu cofrestredig** cofrestredig sy'n darparu gofal a chymorth. Mae cofrestr sy’n seiliedig ar gymwysterau yn hanfodol i sicrhau bod gan weithwyr cofrestredig sgiliau a gwybodaeth addas.

# Denu, recriwtio a chadw pobl â'r gwerthoedd cywir

Cyhoeddwyd gyntaf: 3 January 2024

Diweddariad olaf: 18 January 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/adroddiad-effaith-2022-i-2023/gwasanaethau-gofal-cymdeithasol-ar-blynyddoedd-cynnar-syn-denu-recriwtio-a-chadw-pobl-âr-gwerthoedd-cywir-i-ddiwallu-anghenion-y-rhai-sydd-angen-gofal-a-chymorth am y fersiwn diweddaraf.

**Gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar sy'n denu, recriwtio a chadw pobl â'r gwerthoedd cywir i ddiwallu anghenion y rhai sydd angen gofal a chymorth.**

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn o'n cynllun strategol yn ystod 2022 i 2023.

Rydyn ni’n parhau i adeiladu ar frand Gofalwn Cymru i ddenu, recriwtio a chadw pobl yn y sector gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar.

Rydyn ni wedi datblygu ein ymgyrch cenedlaethol a phorth swyddi Gofalwn Cymru ymhellach, sy'n cael ei werthfawrogi a'i ddefnyddio gan fwy o ddarparwyr. Rydyn ni wedi cyflwyno cynllun cyfweliad gwarantedig ac wedi adeiladu ar weithio mewn partneriaeth i wella ein rhaglenni Cyflwyniad i ofal cymdeithasol a gofal plant yn barhaus.

Rydyn ni wedi gweld cynnydd yn nifer y swyddi sy'n cael eu postio ar ein porth swyddi ac yn nifer y ceisiadau uniongyrchol.

Mae'r porth swyddi yn ffordd hawdd i gyflogwyr gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar hysbysebu eu swyddi gwag ac i bobl weld y swyddi gwag sydd ar gael yn eu hardal.

## Gofalwn Cymru

Yn 2022 i 2023:

- cynhaliodd Gofalwn Cymru **5 ymgyrch** yn canolbwyntio ar: ofal cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant, prentisiaethau a'r Gymraeg

- cafwyd **62,461,120 o argraffiadau** ar draws pob ymgyrch (y nifer o weithiau roedd y cynnwys yn cael ei arddangos)
- dywedodd **37 y cant** wrthym ni eu bod yn teimlo'n fwy cadarnhaol am ofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar ar ôl gweld hysbyseb Gofalwn Cymru
- dywedodd **19 y cant** o bobl Cymru wrthym ni eu bod yn ymwybodol o Gofalwn Cymru
- roedd gwefan Gofalwn Cymru wedi cael **139,779 o ymwelwyr**
- cafodd **6,442 o swyddi** eu postio ar borth swyddi Gofalwn Cymru.

Roedd **600 o bobl** wedi cwblhau'r rhaglen **Cyflwyniad i ofal cymdeithasol** erbyn diwedd mis Mawrth 2023.

Yn dilyn y rhaglen, **mae 20 y cant** o bobl wedi dod o hyd i gyflogaeth neu wedi parhau â'u haddysg.

Cwblhaodd mwy na **70 aelod** o Ganolfan Gymunedol Affricanaidd Abertawe y rhaglen ac ers hynny mae **35**wedi mynd ymlaen i weithio ym maes gofal cymdeithasol.

Mae **116 o bobl** wedi cwblhau'r rhaglen **Cyflwyniad i Ofal Plant** o fewn y **chwe mis** cyntaf ar ôl ei lansio.

**“O ganlyniad i'r cwrs hwn roeddwn i'n ystyried newid gyrfa. Ar ôl 20 mlynedd yn fy swydd bresennol, dwi wedi rhoi fy rhybudd i mewn i ddechrau gyrfa newydd ym maes gofal plant. Yn ffodus, dwi wedi cael swydd lawn amser fel nyrs feithrin a dwi'n dechrau mewn pythefnos, ac alla i ddim aros!”**

**– Un dilyn y rhaglen Cyflwyniad i ofal plant**

# Ymarfer a pholisi sy'n seiliedig ar arloesi, ymchwil a data

Cyhoeddwyd gyntaf: 3 January 2024

Diweddariad olaf: 18 January 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/adroddiad-effaith-2022-i-2023/ymarfer-a-pholisi-gofal-cymdeithasol-syn-seiliedig-ar-arloesi-ymchwil-a-data-or-radd-flaenaf-a-mathau-eraill-o-dystiolaeth am y fersiwn diweddaraf.

**Ymarfer a pholisi gofal cymdeithasol sy'n seiliedig ar arloesi, ymchwil a data o'r radd flaenaf, a mathau eraill o dystiolaeth.**

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn o'n cynllun strategol yn ystod 2022 i 2023.

Rydyn ni wedi parhau i arwain y gwaith o gwmpas y:

- **dull strategol o ymdrin â data gofal cymdeithasol**
- **porth data gofal cymdeithasol cenedlaethol ar gyfer Cymru**
- **Strategaeth ymchwil a datblygu mewn gofal cymdeithasol**.

Rydyn ni hefyd wedi weithio'n agos gydag ystod o bartneriaid i gefnogi cymunedau ymarfer ymchwil, meithrin gallu, rhannu ymarfer a chefnogi gwaith arloesi.

## Adroddiad data'r gweithlu gofal cymdeithasol

Ym mis Mehefin 2022, fe wnaethon ni gyhoeddi **adroddiad data y gweithlu gofal cymdeithasol**, sy'n rhoi darlun clir o'r gweithlu ar 31 Mawrth 2021.

Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar ddata gan bob un o'r **22 awdurdod lleol** a **2,173 o leoliadau neu ddarparwyr**.

## Porth data cenedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol

Ym mis Mai 2022, fe wnaethon ni lansio porth data newydd, sydd â data am ystod o wasanaethau gofal cymdeithasol.

Mae'r porth ar gael i bawb, er mai'r prif gynulleidfa yw cynllunwyr, comisiynwyr awdurdodau lleol, ymchwilwyr a phobl sy'n arwain gwasanaethau.

Yn 2023, byddwn ni’n ychwanegu mwy o ddata ar y porth i gefnogi cynllunio'r gweithlu.

## Cymorth arloesi gofal cymdeithasol

Dechreuom ni raglen hirdymor yn edrych ar sut allwn ni gefnogi arloesi gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Fe wnaethon ni sefydlu cymuned ymarfer i gefnogi'r defnydd o dystiolaeth wrth ddylunio gwasanaethau gofal cymdeithasol, sydd â mwy na **60 o aelodau**.

## Strategaeth ymchwil, arloesi a gwella newydd ar gyfer gofal cymdeithasol

Yn ystod y flwyddyn, daethom ni â phartneriaid a rhanddeiliaid ynghyd i gefnogi datblygiad strategaeth ymchwil, arloesi a gwella newydd ar gyfer gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn adeiladu ar **strategaeth ymchwil a datblygu gofal cymdeithasol 2018 i 2023**, mewn partneriaeth ag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Rydyn ni am greu diwylliant lle mae tystiolaeth yn ganolog i gyflawni ac yn cael ei defnyddio i lywio penderfyniadau ar bob lefel o ofal cymdeithasol. Yn 2023 i 2024, rydyn ni am **glywed eich barn** am y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma.

# Gwasanaethau sy’n ymgorffori ac yn darparu dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau

Cyhoeddwyd gyntaf: 3 January 2024

Diweddariad olaf: 18 January 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/adroddiad-effaith-2022-i-2023/gwasanaethau-gofal-cymdeithasol-syn-ymgorffori-ac-yn-darparu-dulliau-gofal-a-chymorth-syn-seiliedig-ar-gryfderau am y fersiwn diweddaraf.

**Gwasanaethau gofal cymdeithasol sy’n ymgorffori ac yn darparu dulliau gofal a chymorth sy'n seiliedig ar gryfderau.**

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn o'n cynllun strategol yn ystod 2022 i 2023.

Mae rhoi'r unigolyn a'i anghenion wrth wraidd eu gofal, a rhoi llais a rheolaeth iddyn nhw dros y canlyniadau sy'n eu helpu i gyflawni llesiant yn egwyddor allweddol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Pobl yw'r arbenigwyr yn eu bywydau eu hunain, ac wrth gydweithio â gweithwyr proffesiynol, nhw sydd yn y sefyllfa orau i ddweud wrthym beth fydd yn cefnogi eu llesiant.

Rydyn ni wedi bod yn darparu offer ac adnoddau ymarferol i helpu gweithwyr proffesiynol defnyddio **dull sy'n canolbwyntio ar gryfderau** yn eu hymarfer.

Yn 2022 i 2023, fe wnaethon ni ddarparu hyfforddiant i **fwy na 260 o Unigolion Cyfrifol** yng Nghymru am:

- y cyd-destun deddfwriaethol yng Nghymru
- ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n seiliedig ar gryfderau
- sut i roi sgyrsiau 'beth sy'n bwysig' wrth wraidd y ddarpariaeth gofal a chymorth.

Fe wnaethon ni redeg rhwydwaith o fentoriaid i hyrwyddo'r dull seiliedig ar gryfderau yn eu sefydliad. Mae'r aelodau'n cynnwys staff o **19 awdurdod lleol** a'r sefydliad gofalwyr di-dâl Credu Cymru.

## Rhaglenni rheoli ac arwain

Rydyn ni'n goruchwylio nifer o raglenni rheoli ac arweinyddiaeth. Hyd yma, mae:

- **751 o bobl** wedi mynychu'r Rhaglen Datblygu Rheolwr Tîm
- **90 o bobl** wedi dilyn y Rhaglen Datblygu Rheolwyr Canol.

Roedd **99 y cant** o'r bobl a fynychodd yn teimlo ei fod yn berthnasol iddyn nhw a'u sefydliad, a'u bod yn diwallu eu hanghenion.

Buom ni hefyd yn gweithio gyda'r sector i ddatblygu **dwy raglen newydd** – un ar gyfer darpar reolwyr canol ac un ar arweinyddiaeth ar y cyd a thosturiol.

# Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu gwasanaethau effeithiol a chynaliadwy o'r radd flaenaf

Cyhoeddwyd gyntaf: 3 January 2024

Diweddariad olaf: 18 January 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/adroddiad-effaith-2022-i-2023/mae-gofal-cymdeithasol-cymru-yn-darparu-gwasanaethau-

effeithiol-a-chynaliadwy-or-radd-flaenaf am y fersiwn diweddaraf.

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn o'n cynllun strategol yn ystod 2022 i 2023.

Fel sefydliad arweinyddiaeth cenedlaethol, mae gennym ni gyfrifoldeb i arwain drwy esiampl o ran sut rydyn ni’n gweithio.

I fod yn sefydliad effeithiol, mae'n rhaid i ni ddeall a helpu i ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu pobl sy'n gweithio yn y sectorau gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar.

Byddwn ni’n parhau i weithio gyda'n cwsmeriaid i sicrhau bod ein gwasanaethau'n diwallu eu hanghenion sy'n newid drwy'r amser. Byddwn ni’n defnyddio adborth i herio a llywio ein busnes, ein prosiectau a'n strategaethau.

Rydyn ni wedi parhau i fod yn agored a thryloyw yn ein penderfyniadau (llywodraethu) o ran sut rydyn ni’n gweithio a sut rydyn ni’n gwario arian cyhoeddus wrth gyflawni ein cynllun pum mlynedd.

Cawsom ni adroddiadau cadarnhaol gan Archwilio Cymru a'n harchwilwyr mewnol am ein trefniadau llywodraethu, yn ogystal ag adborth cadarnhaol gan ein Gweinidog sy'n noddi a'n swyddogion ar ein gwaith i gefnogi'r sector.

Yn 2022 i 2023, fe wnaethon ni gyhoeddi ein:

- Cynllun strategol ar gyfer 2022 i 2027, gyda digwyddiad lansio yn y Senedd ym mis Ebrill 2022
- *dull marchnata a chyfathrebu mewnol* a *strategaeth ddigidol*, sy'n amlinellu sut fyddwn ni’n mynd ati i gefnogi ein cwsmeriaid. Rydyn ni am sicrhau bod ein gwasanaethau ar-lein yn cyd-fynd â'n cynulleidfaoedd sy'n tyfua’u bod yn ddiwallu holl anghenion cynnwys, hygyrchedd a phrofiad ein cynulleidfa.

- *strategaeth fewnol ar y Gymraeg* i'n helpu i gefnogi ein staff i ddysgu Cymraeg a gwella eu sgiliau dwyieithog
- *cynllun hyfforddiant a dysgu mewnol* i gefnogi datblygiad ein staff
- Cynllun cydraddoldeb strategol, sy'n ategu ein cynllun cydraddoldeb strategol.

Rydyn ni wedi rhoi ein Cynllun gweithredu ar ddatgarboneiddio ar waith ac wedi lleihau ein hôl troed carbon **44 y cant** ers 2019.

Mae mwy na **1.8 miliwn o bobl** wedi ymweld â'n gwefan.

Mae gennym ni **7,000 a mwy o ddilynwyr** ar X (Twitter), **4,500 o ddilynwyr** ar ein tudalen Facebook a mwy na **1,200 o ddilynwyr** ar LinkedIn.

## Ein staff

Erbyn diwedd mis Mawrth 2023, roedd gennym ni:

- **201** aelod o staff
- **52** o weithwyr newydd
- **10.92 y cant** o drosiant staff
- **3.6 y cant** o gyfradd absenoldeb salwch
- **2.4 y cant** o gyfradd absenoldeb salwch, os ydyn ni’n eithrio salwch tymor hir
- **tystysgrif archwilio lân** a ddangosir yn ein cyfrifon blynyddol statudol.